# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Canllawiau ar gyfer Adran 6 – y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Cwestiynau Cyffredin

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG33046 ISBN digidol: 978 1 78859 631 2

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1

## Canllawiau ar gyfer Adran 6 - y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Cwestiynau Cyffredin

### Cynnwys


**Cyflwyniad ... 3**
**Trosolwg ... 4**
**C1 Beth yw'r ddyletswydd bioamrywiaeth ehangach o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)? ... 5**
**C2 Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud i gydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth A6? ... 5**
**C3 Sut mae hyrwyddo Cydnerthedd yr ecosystem yn ehangu'r hyn y mae angen i ni ei wneud ar gyfer bioamrywiaeth? ... 6**
**C4 I bwy mae dyletswydd A6 yn berthnasol? ... 7**
**C5 Pa wybodaeth a thystiolaeth ddylai awdurdodau cyhoeddus i roi ystyriaeth iddynt wrth gydymffurfio â dyletswydd A6? ... 8**
**C6 Pwy o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd? ... 9**
**C7 Beth sy'n ffurfio cynllun at ddibenion dyletswydd A6? ... 9**
**C8 Beth ddylai gael ei gynnwys yng nghynllun A6? ... 10**
**C9 Pa ganllawiau eraill sydd ar gael er mwyn penderfynu sut i weithredu? ... 12**
**C10 Pryd ddylid llunio cynllun A6? ... 13**
**C11 Sut a ble y dylid cyhoeddi cynllun A6? ... 14**
**C12 Sut y dylid adrodd yn ôl ar ddyletswydd A6? ... 14**
**C13 Sut mae dyletswydd A6 yn berthnasol i'r Cyrff Cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? ... 15**
**C14 Beth sy'n digwydd os yw awdurdod cyhoeddus wedi llunio cynllun A6 nad yw'n dilyn y canllawiau hyn? ... 16**
**C15 Sut fydd trosglwyddo o'r UE yn effeithio ar ddyletswydd A6? ... 16**
**C16 Sut mae dyletswydd A6 yn berthnasol i Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)? ... 17**
**C17 Beth sydd wedi digwydd i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac i'r partneriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol? ... 17**
**Atodiad ... 19**
**Beth yw ecosystemau a bioamrywiaeth? ... 19**
**Pam mae'n bwysig hyrwyddo ecosystemau cydnerth? ... 19**
**Sut ydym ni'n mynd i'r afael â chydnerthedd ecosystemau? ... 19**
**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy? ... 20**

**Sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gymorth i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth? ........ 21**
**Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? ........ 21**
**Y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ........ 22**
**Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol ........ 22**
**Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 24**
**Ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru) ........ 24**

## Cyflwyniad

Lluniwyd y Canllaw hwn gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo a chefnogi awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd A6) wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a gyflwynwyd gan Adran 6 o dan Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rhaid i awdurdodau cyhoeddusystyried y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau eraill a roddir iddynt gan Weinidogion Cymru[1].

Mae'r Canllawiau hyn yn seiliedig ar Gwestiynau Cyffredin a chânt eu diweddaru yn ôl yr angen.

Caiff canllawiau technegol pellach eu llunio ar yr arferion gorau o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn

www.biodiversitywales.org.uk

### Cysylltiadau

Y Tîm Polisi Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Colofn 1 J09
Craidd y Dwyrain
CF10 3NC

Mae croeso ichi ar unrhyw adeg anfon eich cynllun A6 neu gyfeirio unrhyw gwestiynau i:
Adran.Section6@llwy.cymru i gael adborth ar unrhyw adeg

Yn ôl i'r brig

[1] Ac eithrio Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Gweinidog y Goron ac adran y Llywodraeth, y mae'n rhaid iddynt roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 1992.

## Trosolwg

- Cyflwynodd Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 **ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem ehangach** (dyletswydd A6) ar gyfer **awdurdodau cyhoeddus** wrth gyflawni swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru[2].

- Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus **geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth** cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan **hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau** drwy wneud hynny.

- Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6 dylai awdurdodau cyhoeddus **ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau** yn eu syniadau a'u cynllunio busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

- Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus **baratoi a chyhoeddi cynllun** sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd.

- Fe all ac fe ddylai'r cynllun hwn fod **yn rhan greiddiol o unrhyw ddogfen gynllunio** fel rhan o brosesau cynllunio busnes neu gynllunio corfforaethol yr awdurdod cyhoeddus. Nid oes angen cynllun annibynnol o reidrwydd.

- Wrth gydymffurfio â dyletswydd A6, dylai awdurdod cyhoeddus ystyried:

    - Y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir yn adran 7 sydd bwysicaf i Gymru.
    - Yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru
    - Unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n ymdrin â rhan o'r ardal neu'r ardal gyfan y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â hi, pan gynhyrchir y rhain.

- Mae **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru** yn cynnwys chwe amcan y dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu a llywio sut yr eir ati i gydymffurfio â dyletswydd A6. Caiff canllawiau technegol ychwanegol eu cyhoeddi maes o law.

- **Rhaid cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2019** ynghylch yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd, ac yna fe'i cyhoeddir bob tair blynedd wedi'r dyddiad hwn.

- Bydd cydymffurfio â dyletswydd A6 yn gymorth i gyrff cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) wneud yn fawr o'u cyfraniadau at yr amcanion Llesiant.

---

[2] Gellir gweld testun llawn y Ddyletswydd a'r Nodiadau Eglurhaol yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents

## C1 Beth yw'r ddyletswydd bioamrywiaeth ehangach o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)?

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn disodli ac yn cryfhau, yng Nghymru, y ddyletswydd bioamrywiaeth flaenorol o dan Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf yr Amgylchedd Naturiol) fel bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru[3]**,** geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag y bo'n bosibl wrth weithredu eu swyddogaethau'n briodol[4].

Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau hefyd.

**Mae bioamrywiaeth wrth wraidd sut mae ecosystemau'n gweithio, ac mae'n ategu cydnerthedd ecosystemau a rheolaeth adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Oherwydd hyn, diben dyletswydd A6 yw sicrhau y bydd ystyried bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu gwneud mewn perthynas â Chymru.**

Mae rhagor o wybodaeth am fioamrywiaeth a chydnerthedd i'w gweld yn yr Atodiad, ynghyd â manylion am y fframwaith a'r egwyddorion ynglŷn â rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Yn allweddol i gydymffurfio â dyletswydd A6 yw sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ar bob cam. Dylai hyn ddechrau gyda'r lefel gorfforaethol, lle dylai syniadau a chynllunio cychwynnol roi ystyriaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth, gan atal ei golli yn y lle cyntaf.[5]

Er mwyn cefnogi hyn, mae dyletswydd A6 yn cyflwyno gofyniad newydd o ran cynllunio ac adrodd yn ôl.

## C2 Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud i gydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth A6?

Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus **geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson â** chyflawni eu swyddogaethau yn briodol, a thrwy wneud hynny, **hyrwyddo ecosystemau cydnerth**.

---

[3] Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob un o awdurdodau cyhoeddus y DU sy'n gweithio yng Nghymru, neu mewn perthynas a Chymru. Caiff dau eithriad eu nodi yn isadran (3): nid yw swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) na swyddogaethau **barnwrol** y llysoedd a thribiwnlysoedd yn atebol i'r ddyletswydd. Fodd bynnag, mae CThEM yn dal yn atebol i'r Ddyletswydd Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig mewn perthynas â Chymru.

[4] Ni fwriedir gwrthdaro rhwng swyddogaethau cyffredinol awdurdod a'r ddyletswydd bioamrywiaeth. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol pan fo awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau.

[5]Mae **bioamrywiaeth (amrywiaeth biolegol)** yn golygu yr amrywiaeth o organebau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem. Mae Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn canolbwyntio ar rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd mawr – gweler C16.

Pwyslais dyletswydd A6 yw y dylai awdurdodau cyhoeddus **ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau** yn eu syniadau a'u cynllunio busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol

Dylai awdurdod cyhoeddus ystyried pryd a sut y gall gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ym mhob un o'i swyddogaethau. Mewn rhai achosion byddai'n fwy priodol i'r sefydliad yn ei chyfanrwydd wneud hynny.

Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd A6, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus **baratoi a chyhoeddi cynllun** sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd

Wrth gydymffurfio â dyletswydd A6, dylai awdurdod cyhoeddus ystyried:

- Y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir yn adran 7 sydd bwysicaf i Gymru
- Yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru
- Unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n ymdrin â rhan o'r ardal neu'r ardal gyfan y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â hi, pan gynhyrchir y rhain.

**Rhaid cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2019** ynghylch yr hyn y mae'r awdurdod lleol wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd, ac yna fe'i cyhoeddir bob tair blynedd wedi'r dyddiad hwn.

Yn ôl i'r brig

## C3 Sut mae hyrwyddo Cydnerthedd yr ecosystem yn ehangu'r hyn y mae angen i ni ei wneud ar gyfer bioamrywiaeth?

Mae gweithredu traddodiadol o blaid bioamrywiaeth yn aml yn canolbwyntio ar neilltuo ardaloedd ar gyfer natur er mwyn gwella amgylchiadau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd targed. Dylai'r gweithredu hwnnw barhau lle bo'n briodol a/neu lle mae'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cydnabod bod angen gweithredu hefyd mewn perthynas â'r dirwedd ehangach i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd yr ecosystem.

Er mwyn hyrwyddo a chynyddu cydnerthedd ecosystemau a'u gwneud yn fwy abl i addasu i ddigwyddiadau (er enghraifft, effeithiau newid yn yr hinsawdd) dylai awdurdodau lleol geisio gwella eu priodoleddau h.y.

- **amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt**
- **y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt**
- **graddfa ecosystemau**
- **cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)**.

Mewn rhai achosion bydd angen newid er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd – er enghraifft ail-gysylltu rhannau o'r ecosystem sydd wedi eu gwahanu, neu bodloni anghenion y rhywogaethau sy'n ddibynnol arnynt. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen rheoli'r newid yn y defnydd o'r tir neu'r môr fel bod ecosystemau yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae newid yn anorfod ac nid yw dyletswydd Adran 6 yn atal hynny, ond mae'n rhaid ei reoli mewn ffordd sy'n gyson â'r ddyletswydd. Gall egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy sydd wedi'u pennu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), gweler yr Atodiad, sy'n cynnwys defnyddio dulliau o reoli ymaddasol, helpu i lywio camau gweithredu a phenderfyniadau. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu cyheddi ar hyn.

Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus heb dir ystyried pob agwedd ar gydnerthedd o hyd, oherwydd mae modd i'w penderfyniadau a'u gweithgareddau effeithio ar ecosystemau'n anuniongyrchol, er enghraifft, drwy eu polisi caffael, neu drwy benderfyniadau ac amodau ariannu.

Mae Adran 6 hefyd yn berthnasol i fioamrywiaeth mewn cyswllt byd-eang ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith penderfyniadau a wneir, neu weithgareddau a gyflawnir, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd mewn perthynas â bioamrywiaeth y tu hwnt i Gymru[6]. Mae'r polisi caffael sydd un o awdurdodau cyhoeddus Cymru yn enghraifft o hyn – byddai angen ystyried goblygiadau penderfyniadau prynu ar fioamrywiaeth – a fyddai effaith negyddol ar ardal warchodedig? A oes modd ei brynu gan ffynhonnell fwy cynaliadwy yn lleol?

Yn ôl i'r brig

### C4 I bwy mae dyletswydd A6 yn berthnasol?

Mae sefydliadau ac unigolion a oedd gynt yn atebol i Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig bellach yn atebol i ddyletswydd A6 mewn perthynas â Chymru. Mae hyn hefyd yn wir am unrhyw awdurdodau cyhoeddus newydd megis Trafnidiaeth Cymru.

Mae Adran 6(9) yn rhestru'r ystod eang o awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, a chaiff hyn ei diffinio ymhellach yn adran 6(10). Mae'r rhestr yn cynnwys Gweinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus, pobl sy'n dal swyddi cyhoeddus ac yn gwneud gwaith statudol. Wedi eu cynnwys hefyd mae ystod eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cyhoeddus ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Maent hefyd yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus y DU os ydynt yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â Chymru, er enghraifft, adrannau llywodraeth ac asiantaethau y DU megis y DVLA a'r Swyddfa Batentau.

Mae cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd Adran 6.

[6] Mae hyn hefyd yn gwneud yn fawr o'r cyfraniad tuag at y nod bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Fodd bynnag, nid yw Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi rhestr bendant o gyrff cyhoeddus – os nad ydych chi'n siŵr a yw eich sefydliad chi yn ddarostyngedig i ddyletswydd A6 cysylltwch â ni yn Adran.Section6@llyw.cymru

Nid yw Gweinidogion y Goron ac Adrannau Llywodraeth y DU yn ddarostyngedig i rai gofynion o ddyletswydd A6. Mae tabl sy'n dangos pa rannau o'r ddyletswydd sy'n berthnasol i'w weld yn http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/notes/division/2/1/6

## C5 Pa wybodaeth a thystiolaeth ddylai awdurdodau cyhoeddus i roi ystyriaeth iddynt wrth gydymffurfio â dyletswydd A6?

O dan isadran (4) o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, adrannau'r llywodraeth a Gweinidogion y Goron i roi ystyriaeth i'r **Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol** (Y Confensiwn) 1992[7], sef cytundeb byd-eang sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar fioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru[8] sy'n nodi chwe amcan ar gyfer gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth er mwyn mynd i'r afael ag ymrwymiadau'r Confensiwn.

Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus eraill ystyried **unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.** Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r canllawiau hynny.

Caiff canllawiau technegol pellach eu datblygu ar **arfer gorau** o ran bodloni dyletswydd A6. Fodd bynnag, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, fel y soniwyd uchod, yn nodi chwe amcan o ran gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac o ran bodloni ymrwymiadau'r Confensiwn. Mae modd defnyddio'r amcanion hyn i benderfynu a gweithredu ar elfennau i fodloni dyletswydd A6. Gweler C8 isod.

Mae isadran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, ar wahân i Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, ystyried y canlynol hefyd wrth gydymffurfio â dyletswydd A6:

- **y rhestr o organebau byw a'r mathau o gynefinoedd a gyhoeddwyd o dan adran 7**[9],
- yr **Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol**[10] ac
- unrhyw **ddatganiad ardal**[11] a gyhoeddir o dan adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n cynnwys rhan o ardal neu'r ardal gyfan y mae'r awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol amdani, pan gyhoeddir y datganiadau.

---

[7] https://www.cbd.int/doc/legal/cbd-en.pdf Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn egluro sut yr eir ati i wneud hyn yng Nghymru.
[8] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?skip=1&lang=cy
[9] http://www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru
[10] http://www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy
[11] Caiff datganiadau ardal eu creu gan Gyfoeth Naturiol Cymru rhwng 2017 a 2019 i ddarparu tystiolaeth er mwyn rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd un neu fwy o ddatganiadau ardal yn berthnasol i bob rhan o Gymru. Gweler Atodiad am ragor o wybodaeth.

Bydd datganiadau ardal yn darparu tystiolaeth ofodol bwysig i helpu i gydlynu gweithgarwch a chydweithio lleolgyda phobl eraill.

### C6 Pwy o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd?

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i'r ffordd y mae sefydliad yn arfer ei swyddogaethau, felly mae'n berthnasol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y swyddogaethau hynny ac sy'n gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Fodd bynnag, y corff sy'n penderfynu'n derfynol neu bennaeth y sefydliad, e.e. y Prif Swyddog Gweithredol neu'r Bwrdd Llywodraethu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol o ran y cydymffurfio.

### C7 Beth sy'n ffurfio cynllun at ddibenion dyletswydd A6?

Yn unol ag isadran (6), mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio Gweinidog y Goron neu adran o fewn y llywodraeth, baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi beth y maen nhw'n bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Gan ystyried unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru, a'r dogfennau a restrir yn isadran 6(5).

Mae'n rhaid i'r awdurdodau hyn hefyd adolygu eu cynlluniau (**y cyfeirir atynt fel y cynllun A6 yn y canllawiau yma**) yng ngoleuni eu hadroddiad, a gyhoeddir o dan adran (7).

Dylai cynllun at ddibenion dyletswydd A6 gynnwys datganiad cynhwysfawr sy'n dangos ymrwymiad i, a chyfrifoldeb am, gydymffurfio â'r ddyletswydd yn gorfforaethol. Dylai wedyn gynnwys yr hyn y bydd y sefydliad yn ei wneud i gyflawni'r ymrwymiad hwn ym mhob un o'i swyddogaethau. Mae modd alinio'r camau hyn ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (gweler C8 isod) oherwydd diben y rhain yw gwyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru.

O ran arfer gorau, dylai'r cynllun A6 fod yn rhan greiddiol o unrhyw ran o unrhyw brosesau cynllunio busnes, rheoli asedau a/neu gynllunio corfforaethol oherwydd bydd hyn yn dangos sut mae'r awdurdod cyhoeddus yn rhoi sylw canolog i'r angen i ystyried bioamrywiaeth.

Mae'n bosibl na fydd angen paratoi cynllun i gyflawni dyletswydd A6 sy'n ddogfen ar wahân i weithgareddau cynllunio corfforaethol rheolaidd. Fodd bynnag, gall y rhain fod yn ddefnyddiol o safbwynt gweithredu, ac mae modd cyfeirio atynt am wybodaeth ychwanegol ynghylch sut y caiff gweithredu dros fioamrywiaeth ei ymestyn i bob un o swyddogaethau'r sefydliad e.e. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol os yw hyn yn dal yn gyfoes a chyfredol, neu Gynllun Gweithredu Adfer Natur lleol neu Gynllun Cydnerthedd Ecosystem os yw'r rhain yn bodoli.

Yn ôl i'r brig

O ran y cyrff cyhoeddus hynny sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) dylent ymgorffori cynllun A6 i'r datganiad sydd ganddynt

am y camau y byddant yn eu cymryd i fodloni eu hamcanion llesiant, ac fe ddylai hyn yn ei dro fod yn eu cynllun corfforaethol, gweler C13 isod.

## C8 Beth ddylai gael ei gynnwys yng nghynllun A6?

Dylai'r cynllun gynnwys datganiad o'r hyn y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ym mhob un o'i swyddogaethau, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny. Fel uchod, dylid ymgorffori'r datganiad hwn yn rhan o unrhyw ddogfen gynllunio busnes neu gorfforaethol.

Dylai wedyn gynnwys y camau y bydd y sefydliad yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiad hwn ym mhob un o'i swyddogaethau.

Dylai'r camau hyn, cyn belled ag y bod modd, fod yn seiliedig ar 6 amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru[12]. Lluniwyd y camau i gyfrannu at wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru.

Dyma'r 6 amcan ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth:

- Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth **er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel**
- Amcan 2: **: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd** sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well
- Amcan 3: **Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth*** drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
- Amcan 4: **Mynd i'r afael â'r prif bwysau** ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella ein **tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**
- Amcan 6: Rhoi fframwaith **llywodraethu a chymorth** ar waith i gyflawni'r amcanion.[13]

*Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi'r priodoleddau canlynol o gydnerthedd ecosystem:

- **Amrywiaeth** - A siarad yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy cydnerth ac yn gallu gwrthsefyll ffactorau allanol a'u heffeithiau. Mae amrywiaeth yn golygu amrywiaeth fiolegol, ddaearegol a ffisegol
- **Cysylltedd** o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- **Maint a Chwmpas** - ehanga yn y byd yw cwmpas ecosystem, heb fylchau, mwya'n y byd yw ei chydnerthedd
- **Cyflwr** – mae angen i wasanaethau cynnal sylfaenol yr ecosystem fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol a darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig

Yn ôl i'r brig

[12] Y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel Cynllun Adfer Natur Cymru. Mae modd dod o hyd iddo yma
[13] Mae'r amcanion hyn yn mynd i'r afael ag amcanion strategol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol https://www.cbd.int/sp/elements/default.shtml

- **Y gallu i addasu** – gallu ecosystemau i addasu i ddigwyddiadau , gan ddeall nad yw ecosystemau'n ddisymud a'u bod yn newid dros amser.

Dylai pob un o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus ystyried ym mha fodd y gallant gyfrannau at amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a hyrwyddo cydnerthedd, drwy roi sylw i briodoleddau'r cynllun fel y'u nodir uchod. Mewn rhai achosion mae'n fwy priodol i'r sefydliad weithredu yn ei chyfanrwydd.
Dyma rai enghreifftiau:

- Codi ymwybyddiaeth ledled y sefydliad ynghylch sut y gall pawb yn ddiwahân effeithio a dylanwadu ar fioamrywiaeth ac ystyried mesurau i wella bioamrywiaeth ac ecosystemau ym mhob polisi, cynllun a phrosiect. Ymgorfforwch hyn i'ch cynllunio busnes corfforaethol

- Meddyliwch ynghylch sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ym mhob un o weithgareddau'r sefydliad e.e. cefnogi hamdden, addysg, atal llifogydd a thyfu bwyd yn lleol. Er enghraifft, mae toi gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, lleihau defnydd ynni a gwella systemau draenio

- Defnyddiwch atebion brodorol, bio-amrywiol, yn seiliedig ar natur pryd bynnag y mae'n bosibl

- Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, ond os prynir cynnyrch fel papur ac ati, yna sicrhau y daw'r cyflenwad o ffynonellau cynaliadwy – h.y. papur o fforestydd cynaliadwy

- Edrych am gyfleoedd, mawr neu fach, i helpu i annog bioamrywiaeth – e.e. plannu rhywogaethau naturiol, ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer pryfed peillio, gadael ardaloedd o wair heb eu torri, a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd gwerthfawr

- Diogelu rhywogaethau, cynefinoedd ac ardaloedd sydd wedi eu gwarchod

- Adfer cynefinoedd i gyflwr mor naturiol a chydnerth â phosibl

- Cefnogi'r gwaith o greu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, gwrychoedd brodorol, dolydd blodau gwyllt ac ardaloedd eraill o fannau glas lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu ac y gall cymunedau eu defnyddio'n hwylus

- Rheoli'r tir yr ydych chi'n gyfrifol amdano mewn modd sy'n annog ffyniant bywyd gwyllt, a chynnwys staff yn y gwaith o gynllunio a rheoli hyn

- Gweithredu i gefnogi pryfed peillio a bod yn sefydliad sy'n annog gwenyn i ffynnu[14]

- Os ydych chi'n gyfrifol am reoli ymylon ffyrdd, gwnewch hynny mewn modd sy'n cyfrannu at ddiogelwch ffordd a chadwraeth bywyd gwyllt

[14] https://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

- Gwneud penderfyniadau a chynlluniau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chyfrannu at yr wybodaeth sydd gennym lle bo'n bosibl, er enghraifft, drwy gefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion

- Cefnogi a chymryd rhan mewn partneriaethau a mentrau cydweithio sy'n gweithredu'n lleol ac yn gymunedol o blaid bioamrywiaeth, ac/neu gynnig arian iddynt.

Bydd unrhyw weithgarwch, strwythurau darparu a chapasiti ar gyfer bioamrywiaeth sy'n bodoli mewn awdurdod cyhoeddus yn dal i gyfrannu at unrhyw weithredu dros fioamrywiaeth. Eto, dylid adolygu hyn i sicrhau ei fod wedi ei ymgorffori'n llwyr ac yn addas i bwrpas o dan ddyletswydd A6.

Rydym yn ceisio denfyddio tir mewn ffordd well, sy'n ystyried cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywioaeth yn gynnar yn y broses o wneud penderfyniadau, sicrhau mwy o sefydlogrwydd, ac yn ei dro gynnig manteision ehangach i gymdeithas.

Mae'n bosibl y gallwch ddod o hyd i'r capasiti a'r arbenigedd i gefnogi'r broses hon yn eich sefydliad. Fel arall, gallwch gysylltu â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a all ddarparu neu eich cyfeirio at gyngor a chanllawiau ychwanegol: http://www.biodiversitywales.org.uk/Cysylltu

Yn ôl i'r brig

## C9 Pa ganllawiau eraill sydd ar gael er mwyn penderfynu sut i weithredu?

Mae'r ddyletswydd flaenorol a oedd yn deillio o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, ynghyd â'r cyfoeth o waith a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus (yn enwedig Awdurdodau Lleol, eu swyddogion bioamrywiaeth a Phartneriaethau Bioamrywiaeth Lleol) wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl ffordd. Mae'r gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth ac yn darparu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli; yn rheoli a chysylltu safleoedd bywyd gwyllt lleol; ac yn cefnogi gweithredu o blaid bioamrywiaeth drwy swyddogaethau eraill (er enghraifft, rheoli ochrau ffyrdd gan awdurdodau trafnidiaeth)[15].

Mae'r pwyntiau gweithredu pwysig hyn yn dal i fod yn bwysig a hanfodol. Yn hyn o beth, mae llawer o'r canllawiau a gyhoeddwyd o'r blaen i gefnogi'r gwaith o weithredu o blaid bioamrywiaeth ar lawr gwlad ac mewn gwahanol swyddogaethau yn dal yn berthnasol a defnyddiol. Un enghraifft o hyn yw'r canllawiau a gyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ynglŷn â Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig[16].

[15] Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 'Dathlu llwyddiant: Gweithredu ar y cyd dros fyd natur yng Nghymru' yn dangos hyn ac yn rhoi enghreifftiau o sut mae modd parhau gyda hyn i gyflawni'r ddyletswydd A6.
http://www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru

[16] http://www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru

Yn yr un modd, mae toreth o ganllawiau ar weithredu o blaid bioamrywiaeth, gan gynnwys amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio[17] y mae modd eu defnyddio hefyd i benderfynu sut i weithredu. Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth yn cyfeirio at y canllawiau hyn:
http://www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru
Caiff canllawiau technegol eraill eu cynhyrchu i adlewyrchu'r Polisi Adnoddau Naturiol, proses y datganiadau ardal wrth i hyn ddatblygu ymhellach, a chanllawiau arferion gorau ar sut i ddefnyddio amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Yn benodol, caiff canllawiau pellach eu datblygu i helpu i ymgorffori'r ystyriaeth o gydnerthedd bioamrywiaeth ac ecosystemau ar lefel gorfforaethol. Er enghraifft, gellid mynd ati mewn ffordd debyg i'r modd yr aethpwyd i'r afael ag Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb er mwyn helpu'r broses hon – e.e. paratoi archwiliad o sut mae'r awdurdod cyhoeddus yn mynd i'r afael a dyletswydd A6 fel man cychwyn. Wrth i hyn ddatblygu, caiff rhannu enghreifftiau o arferion gorau ei annog a'i hwyluso, a bydd y ffordd o weithio yn esblygu wrth inni feithrin dealltwriaeth well drwy gyfrwng tystiolaeth a phrofiadau gwell.

Bydd swyddogaeth gynllunio defnydd tir statudol awdurdodau cynllunio lleol yn elfen allweddol o gydymffurfio â dyletswydd A6. Caiff mwy o ganllawiau eu rhyddhau ar ddechrau 2018 pan gyhoeddir ymgynghoriad drafft ar fersiwn wedi ei ailstrwythuro o Bolisi Cynllunio Cymru.

### C10 Pryd ddylid llunio cynllun A6?

Nid yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi pryd mae angen i awdurdod cyhoeddus lunio a chyhoeddi ei gynllun cyntaf. Ond os nad yw'r cynllun A6 wedi ei baratoi yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i Ran 1 y Ddeddf ddod i rym, dylid ei baratoi cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn dangos bod yr awdurdod cyhoeddus yn cydymffurfio â dyletswydd A6, ac yn caniatáu iddo adrodd yn ôl mewn modd amserol erbyn diwedd 2019.

Mae'n bosibl hefyd y bydd manylion y cynllun yn ddefnyddiol neu yn angenrheidiol fel rhan o unrhyw gais a anfonir at Lywodraeth Cymru, er enghraifft, ar gyfer ceisiadau ariannol – felly byddai'n fuddiol ei baratoi mewn da bryd.

Fodd bynnag, byddai'n rhesymol i awdurdod cyhoeddus gysoni sut mae'n cynllunio ac adrodd yn ôl gyda'i gylchredau cynllunio corfforaethol, yn enwedig os yw hyn yn dangos bod dyletswydd A6 wedi ei hymgorffori.

Yr arfer orau i gyrff cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw ymgorffori eu cynllun A6 yn y modd y maent yn cyflawni gofynion y Ddeddf honno h.y. eu datganiad llesiant o dan adran 7[18], yr oedd angen y cyntaf cyn 1 Ebrill 2017. Gweler C13 isod am ragor o wybodaeth i Gyrff Cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ôl i'r brig

[17] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/action-plan-for-pollinators/?skip=1&lang=cy
[18] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/7/enacted/welsh

Mae modd adolygu cynllun A6 ar unrhyw adeg.

### C11 Sut a ble y dylid cyhoeddi cynllun A6?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi bod yn rhaid llunio a chyhoeddi cynllun A6. Yr arfer gorau fyddai i'r cynllun A6 ffurfio rhan o'r Cynllun Corfforaethol ac, os yw hwnnw wedi ei gyhoeddi, bydd yn bodloni'r gofyniad i gyhoeddi'r cynllun A6. Mae modd cyhoeddi'r cynllun yn ychwanegol neu ar wahân mewn unrhyw fformat sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys ar wefan y corff cyhoeddus. Yr arfer gorau fyddai i hyn fod ar adran gorfforaethol y wefan.

Ar ôl ichi gwblhau eich cynllun A6, neu ei fod wedi cyrraedd y cam y mae modd ei rannu â Llywodraeth Cymru, anfonwch ef i Adran.Section6@llyw.cymru

### C12 Sut y dylid adrodd yn ôl ar ddyletswydd A6?

Mae isadran (7) yn ei gwneud yn ofynnol, cyn diwedd 2019, a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, y dylai pob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad am **yr hyn y maent wedi ei wneud** i gydymffurfio â dyletswydd A6.

Anogir sefydliadau i benderfynu ar eu ffyrdd eu hunain o adrodd yn ôl – gallai hyn unwaith eto fod yn rhan o'u systemau a/neu broses adrodd yn ôl arferol, megis eu hadroddiad blynyddol, neu gallai fod yn ddogfen benodol.

Os oes angen i awdurdod lleol gyhoeddi cynllun yna **mae'n rhaid iddo adolygu'r** cynllun hwnnw yng ngoleuni ei adroddiad.

Gallai hyn gynnwys gwerthusiad o:

- pa mor dda y mae systemau cynllunio corfforaethol wedi ystyried, ac wedi ymrwymo i, gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
- pa mor llwyddiannus y mae amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael eu bodloni, gan gynnwys defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael.
- sut mae'r agweddau ar gydnerthedd yr ecosystem wedi eu defnyddio'n rhagweithiol.
- unrhyw fesurau o fioamrywiaeth neu gydnerthedd yr ecosystem y mae modd eu cymhwyso (er enghraifft, cyfrannu at y Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- llwyddiannau hynod ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau.

Caiff mwy o ganllawiau eu darparu ar adrodd yn ôl ar ddyletswydd A6.

Yn ôl i'r brig

## C13 Sut mae dyletswydd A6 yn berthnasol i'r Cyrff Cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

Gall dyletswydd A6, a'r dyletswyddau eraill sy'n tarddu o Ddeddf yr Amgylchedd, helpu sefydliadau i geisio cyflawni'r canlyniadau gorau o ran lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cyrff cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn atebol i ddyletswydd A6. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6 mae angen i'r cyrff cyhoeddus hynny gynnal a gwella bioamrywiaeth, sy'n rhan o'r amcanion llesiant ac o'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae amcanion yr egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cynnwys cyfrannu at lwyddiant yr amcanion llesiant sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu cynnig.

Mae'r broses o gydymffurfio â Dyletswydd A6 felly yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[19]. Bydd defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn offeryn defnyddiol i sefydliadau sy'n ceisio ymgorffori eu dyletswyddau o dan A6 yn eu gwaith cynllunio:

- Wrth osod neu adolygu eu hamcanion llesiant a'r hyn y byddant yn ei wneud i'w cyflawni (Adrannau 3, 7 ac 8 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), dylai cyrff cyhoeddus ystyried y dystiolaeth sydd ei hangen o dan isadran (5) o ddyletswydd A6 – rhestrau Adran 7, yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol ac unrhyw ddatganiad ardal perthnasol*[1].

- Mae modd i amcan llesiant, neu'r camau sy'n angenrheidiol i'w fodloni, gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud i gydymffurfio â dyletswydd A6. Byddai hyn yn bodloni'r gofyniad am gynllun A6*[2]. Mae'r canllawiau statudol ar y ddyletswydd unigol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi y dylai'r camau hyn yn eu tro fod yn rhan o'u cynllun corfforaethol.

- Mewn achos o'r fath, mae modd i'r adroddiad ar gydymffurfio â dyletswydd A6 fod yn rhan o'r adroddiad ar sut y maent yn bodloni eu hamcanion llesiant.

- Dylid gwerthuso'r amcanion a'r datganiad llesiant, a'u datblygu ac adeiladu arnynt gyda threigl amser. Cyn belled ag y caiff amcanion neu gamau llesiant sy'n ymgorffori dyletswydd A6 eu hadolygu a/neu eu diwygio, byddai hefyd yn bodloni gofyniad A6 i adolygu a diwygio'r cynllun A6.

Mae'n rhaid i amcanion llesiant a datganiadau yn eu cylch o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nodi sut y caiff bioamrywiaeth ei gynnal a'i wella, a sut y caiff cydnerthedd ecosystemau ei hyrwyddo o ganlyniad i hynny, ar gyfer y ddwy ddyletswydd sydd i'w cyflawni. Yn ôl i'r brig

[19] http://gov.wales/docs/desh/publications/160225-spsf-2-individual-role-cy.pdf

*[1] Bydd datganiadau ardal hefyd yn darparu tystiolaeth y mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ei hystyried wrth ddatblygu asesiadau llesiant, a fyddant yn dylanwadu ar Gynlluniau Llesiant Lleol. Mae modd i Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus elwa ar yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol fel rhan o'r broses honno[20].

*[2] Os yw'r datganiad yn un cynhwysfawr, mae modd cyfeirio at fanylion ychwanegol mewn mannau eraill, er enghraifft mewn cynlluniau lleol eraill megis Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Cynlluniau Adfer Natur neu Gynlluniau Cydnerthedd Ecosystemau os ydynt yn nodi beth fydd y corff cyhoeddus yn ei wneud i gydymffurfio ag A6.

## C14 Beth sy'n digwydd os yw awdurdod cyhoeddus wedi llunio cynllun A6 nad yw'n dilyn y canllawiau hyn?

Un o'r egwyddorion o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (gweler Atodiad isod) yw y dylem fod yn hyblyg a chynllunio, monitro a newid ein gwaith wrth inni feithrin dealltwriaeth well drwy ein tystiolaeth a'n profiadau cynyddol.

Fel hyn gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod modd cymryd camau pellach gyda phob fersiwn o'r cynllun A6 i ymgorffori'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ym mob mhob swyddogaeth sydd gan gorff cyhoeddus.

Gallwch anfon eich cynllun A6 i Adran.Section6@llyw.cymru
am sylwadau unrhyw bryd.

Yn ôl i'r brig

## C15 Sut fydd trosglwyddo o'r UE yn effeithio ar ddyletswydd A6?

Bydd dyletswydd A6 yn dal yn berthnasol ar ôl i Gymru adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ein hymrwymiadau i ddatblygu cynaliadwy, twf gwyrdd ac egwyddorion y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem wedi eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru drwy gyfrwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r rhain yn eu tro yn pwyso ar y Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd ac Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Pan fyddwn wedi gadael yr UE bydd angen inni gydymffurfio o hyd â'r confensiynau hyn o eiddo'r CU.

[20] http://gov.wales/docs/desh/publications/161111-spsf-3-collective-role-cy.pdf

## C16 Sut mae dyletswydd A6 yn berthnasol i Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)?

Mae Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd (rhestrau Adran 7), sydd yn eu barn hwy, o'r pwys mwyaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Yna mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a chynyddu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Wrth gydymffurfio â dyletswydd A6, **mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried** rhestrau A7. Bydd hyn hefyd o gymorth i awdurdodau cyhoeddus fodloni Amcan 2 o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Mae'r rhestrau S7 wedi disodli'r rhestrau A42 blaenorol (y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd sydd o ddirfawr bwys er dibenion gwarchod bioamrywiaeth, o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006). Ble bynnag yr oedd yn ofynnol ichi ystyried rhestrau A42, dylech bellach gyfeirio at restrau A7.

Mae'r rhestrau A7 sy'n bodoli ar hyn o bryd yn union yr un fath â'r rhestrau A42 blaenorol gan iddynt gael eu trosi troswyd fel mesur dros dro, pan ddaeth Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i rym. Mae modd gweld rhagor o wybodaeth, a'r rhestrau, yma.

Mae Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru wrthi'n adolygu'r rhestrau hyn i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas bodloni'r ddeddfwriaeth newydd. Byddir yn ymgynghori ar y meini prawf ar gyfer y rhestrau yn 2017 a chaiff rhestrau a chanllawiau diwygiedig eu llunio cyn gynted â phosibl.

Yn ôl i'r brig

## C17 Beth sydd wedi digwydd i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac i'r partneriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol?

Cafodd y gwaith a wnaed yn flaenorol o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, gan gynnwys creu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ei ddatganoli i'r gwledydd unigol (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban). Mae pob un o'r pedair gwlad yn gweithio yn unol â'u strategaethau a'u targedau eu hunain i fynd i'r afael â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac amcanion a thargedau bioamrywiaeth yr UE hefyd.

Mae Fframwaith Bioamrywiaeth y DU yn dangos sut mae gwaith pedair gwlad y DU yn cyfuno â'r gwaith ar lefel y DU i gyflawni Targedau Bioamrywiaeth Aichi ac amcanion Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE. Mae'n nodi'r hyn sydd angen ei wneud i ategu strategaethau bioamrywiaeth y gwledydd unigol, ac yn crybwyll a yw'r gwaith yn strategaethau'r gwledydd unigol yn cyfrannu at ofynion rhyngwladol.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yw'r cynllun gweithredu a'r strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol sydd ei angen o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru. Mae gwaith ar y gweill i roi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ar waith ledled y wlad drwy gyfrwng gwasanaethau a swyddogaethau sefydliadau cyhoeddus, yn ogystal â rhai preifat os ydynt yn derbyn arian cyhoeddus, a bydd dyletswydd A6 o gymorth i gyflawni hyn.

Bydd cydweithio a chydweithredu mewn partneriaeth yn allweddol i weithredu o blaid bioamrywiaeth. Ystyrir bod y Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol, a oedd yn rhan o broses Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, yn rhan hanfodol o Fframwaith Adfer Natur Cymru, ac maent yn cael eu datblygu i fod yn Bartneriaethau Natur Lleol. Caiff eu swyddogaeth ei diffinio'n fwy eglur drwy gyfrwng grŵp gweithredu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, gan sicrhau y cysylltir â'r fframweithiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (gan gynnwys Datganiadau Ardal).

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn gyfrwng i gydlynu a gweithredu nifer fawr o weithgareddau o blaid bioamrywiaeth, ac maent hefyd yn darparu a chydlynu tystiolaeth leol, a gesglir gan fwyaf gan wirfoddolwyr sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr eithriadol. Bydd y partneriaethau hyn yn elfennau hanfodol yn y gwaith o ddarparu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – gan gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol. Maent hefyd o gymorth i ddarparu'r Polisi Adnoddau Naturiol a chefnogi creu Datganiadau Ardal a chydweithio'n lleol – ynghyd ag ar gyfer y Cynllun Gweithredu Adnoddau Naturiol.

Gofynnwyd i bob aelod o'r Byrddau Gwasanaeth Lleol sy'n cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru a hefyd i'r swyddog Partneriaeth Natur Lleol perthnasol gyfarfod yn anffurfiol i drafod bioamrywiaeth yn eu hardal. Caiff aelodau perthnasol o Bartneriaethau Natur Lleol eu hannog i ymuno ag is-grwpiau Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus pan fydd cyfleoedd yn codi.

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn darparu rhwydwaith a fforwm ar gyfer sefydliadau a Phartneriaethau Natur Lleol sy'n gweithio o blaid bioamrywiaeth ledled Cymru. Mae eu gwefan www.biodiversitywales.org.uk yn gyfoeth o wybodaeth, gan gynnwys canllawiau A6 a rhestrau A7.

## Atodiad

### Beth yw ecosystemau a bioamrywiaeth?

Mae **bioamrywiaeth (amrywiaeth biolegol)** yn golygu yr amrywiaeth o organebau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem.

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth bywyd sy'n bodoli ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu niferoedd a'u hamrywiaeth genetig. Dyma yw ein byd natur cyfareddol a'n cynefinoedd a'n rhywogaethau eiconig; mae'n hanfodol o ran cysylltu pobl â natur; ac mae'n cyfrannu at les, ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol cymdeithas.

Mae **ecosystemau** yn unedau gweithredol sy'n cynnwys ein horganebau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) ar y cyd â'r elfennau o'u hamgylchedd nad ydynt yn fyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ymwneud cymhleth ac amrywiol sy'n digwydd rhyngddynt. Gallant weithio ar sawl raddfa wahanol.

### Pam maent yn bwysig?

Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i fywyd a bywoliaeth pob un ohonom ni ac yn cefnogi swyddogaeth a chydnerthedd ein hecosystemau mewn moroedd, gwlyptiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, fforestydd a thirweddau amaethyddol.

Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n lles yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth sy'n rhoi inni ein bwyd, ein dŵr glân a'r aer yr ydym yn ei anadlu, a'r deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau. Maent hefyd yn ei hamddiffyn rhag peryglon megis llifogydd a newid hinsawdd.

Mae newidiadau yn nosbarthiad a niferoedd planhigion, anifeiliaid a microbau yn effeithio ar swyddogaethau ecosystemau ac ar allu'r swyddogaethau hynny i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r ecosystem. Mae colli rhywogaethau o ecosystemau yn effeithio ar eu gallu i wrthsefyll dyfodiad rhywogaethau eraill, yn effeithio ar y broses o gynhyrchu ac ailgylchu maethynnau, ac yn effeithio ar ddibynadwyedd a sefydlogrwydd ecosystemau.

Felly, mae bioamrywiaeth yn hanfodol i gynnal ecosystemau sy'n darparu'r swyddogaethau hanfodol sy'n greiddiol i'n bywydau. Os collir bioamrywiaeth ac efallai os na chaiff ei adfer yn llwyr, mae'n effeithio ar gapasiti ecosystemau i addasu i newidiadau ac aflonyddwch.

Yn ôl i'r brig

### Pam mae'n bwysig hyrwyddo ecosystemau cydnerth?

Mae'n bwysig datblygu ecosystemau cydnerth oherwydd mae ecosystemau iach a chydnerth yn fwy abl i ymdopi â'r pwysau a'r galwadau sydd arnynt - megis newid hinsawdd - fel y gallant barhau i ddarparu'r ystod eang o wasanaethau ecosystem ar gyfer ein lles a'n ffyniant, yn awr ac yn y dyfodol. Mae a wnelo'n dull ni o weithio â bod yn rhagweithiol a chymryd camau i feithrin cydnerthedd, yn hytrach na rheoli ein

hecosystemau a'n hadnoddau naturiol i 'derfynau amgylcheddol' oherwydd bod cynifer o ansicrwydd yn bodoli gyda'r rhain.

Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn modd ac ar gyfradd sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith amcan llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Sut ydym ni'n mynd i'r afael â chydnerthedd ecosystemau?**

Mae angen inni edrych ar yr agweddau canlynol o gydnerthedd

- **Amrywiaeth** – A siarad yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy cydnerth ac yn gallu gwrthsefyll ffactorau allanol a'u heffeithiau. Mae amrywiaeth yn golygu amrywiaeth fiolegol, ddaearegol a ffisegol.
- **Cysylltedd** o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- **Maint a Chwmpas** - ehanga yn y byd yw cwmpas ecosystem, heb fylchau, mwya'n y byd yw ei chydnerthedd
- **Cyflwr** – mae angen i wasanaethau cynnal sylfaenol yr ecosystem fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol a darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig.
  **Y gallu i addasu** –gallu ecosystemau i addasu i ddigwyddiadau, gan ddeall nad yw ecosystemau'n ddisymud a'u bod yn newid dros amser .

**Elwa ar y manteision**

Mae ecosystemau yn darparu ystod eang o wasanaethau, sydd yn eu tro yn creu manteision sy'n cysylltu adnoddau naturiol â lles pobl. Dyma nhw.

- **Cefnogi systemau a gwasanaethau:** yn angenrheidiol ar gyfer creu pob gwasanaeth ecosystem arall, megis ffurfiant pridd, ailgylchu maethynnau, peillio a chynhyrchu sylfaenol
- **Gwasanaethau darparu:** megis cnydau, pysgod, coed a deunydd genetig
- **Gwasanaethau rheoleiddio:** megis puro dŵr, rheoli mecanweithiau biolegol, dal a storio carbon
- **Gwasanaethau diwylliannol:** yn darparu ffynhonnell o gyfoeth esthetig, ysbrydol, crefyddol, adloniannol neu wyddonol.

Yn ôl i'r brig

Wrth edrych ar fuddiannau a chydnerthedd ecosystem gyda'i gilydd, rydym yn cysylltu â set ehangach o fuddiolwyr, arianwyr a phartneriaid posibl a fydd yn deall pwysigrwydd ein hadnoddau naturiol a'u rheoli'n gynaliadwy.

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy?**

Er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, rhaid inni sicrhau:

- Nad yw adnoddau naturiol yn lleihau'n gyson ac na chânt eu defnyddio'n gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi;
- Nad yw iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau dan fygythiad;
- Y manteisir ar y buddion a geir o wasanaethau ecosystemau;
- Bod y gwasanaeth y mae ecosystemau yn eu darparu yn cyfrannu at ein lles ac yn dal i ddiwallu ein hanghenion cyffredinol, ac nad ydynt yn lleihau

**Sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gymorth i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth?**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy sy'n sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym ni'n rheoli ac yn defnyddio'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i ecosystemau sy'n gweithio'n iach ac mae hefyd yn fudd pwysig y mae cymdeithas yn ei gael o'n hadnoddau naturiol a'n hecosystem. Mae a wnelo rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy â'r ffordd yr ydym ni'n rheoli ein hadnoddau naturiol i ddarparu datblygiad cynaliadwy a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi pwyslais ar yr ecosystem. Mae'n ymwneud â

- sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol
- sut yr ydym yn lleihau'r pwysau ar ein systemau naturiol drwy roi sylw i faterion megis effeithlonrwydd adnoddau, ac elfen bwysig iawn o hyn yw gweithgareddau cadarnhaol megis adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chanolbwyntio ar ecosystemau cydnerth

**Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu egwyddorion o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dyma sut y byddwn ni'n gweithio. Wrth lunio a gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol a Rhestrau Bioamrywiaeth A7 (gweler isod) byddwn yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol, er mwyn:

Yn ôl i'r brig

(a) rheoli mewn modd hyblyg, drwy gynllunio, monitro, adolygu, a lle bo'n briodol, gweithredu mewn ffordd wahanol;
(b) ystyried maint yr ardal benodol yr ydym am weithredu ynddi;
(c) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu ac ymroi i hynny;
(d) gwneud trefniadau priodol i gynnwys y cyhoedd wrth ddod i benderfyniadau;
(e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol o ran ansicrwydd;
(f) ystyried buddion a gwerth sylfaenol adnoddau naturiol ac ecosystemau;
(g) ystyried y goblygiadau tymor byr, canolig a hirdymor o ran gweithredu;
(h) gweithredu i atal difrod sylweddol i ecosystemau;
(i) ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol—
  (i) amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
  (ii) y cysylltiad rhwng ac o fewn ecosystemau;
  (iii) maint ecosystemau;

(iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a sut maent yn gweithio);
(v) hyblygrwydd ecosystemau

**Y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**

Mae'r fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn broses ailadroddus o gasglu tystiolaeth a datblygu a gweithredu polisïau ledled Cymru a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau sydd ar fioamrywiaeth:

- **Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar statws adnoddau naturiol Cymru ac yn cofnodi'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2016 a chaiff adroddiad newydd ei lunio bob 5 mlynedd i nodi'r ddealltwriaeth orau sy'n bodoli ar y pryd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol:

- yn cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd ar ei gynnydd ei hun o ran ei ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac i gymhwyso'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â hynny wrth iddo weithredu yn unol â'i swyddogaethau
- yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cyn llunio Datganiadau Ardal er mwyn cyfrannu at asesiadau, amcanion a chynlluniau Lles
- yn darparu tystiolaeth i gefnogi awdurdodau cyhoeddus cyn llunio Datganiad Ardal ar gyfer dyletswydd A6
- darparu tystiolaeth y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ei hystyried wrth lunio'r Polisi Adnoddau Naturiol.

- **Y Polisi Adnoddau Naturiol**

Mae hwn yn nodi polisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a hefyd nodi'r peryglon, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau o ran hynny, gan gynnwys beth ddylid ei wneud o ran bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol datblygu a gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol drwy gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Wrth ddatblygu'r polisi, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a gwneud popeth rhesymol i weithredu'r Cynllun Adnoddau Naturiol ac annog eraill i weithredu yn yr un modd.

- **Datganiadau Ardal**

Caiff y rhain eu cynhyrchu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae datganiadau ardal sydd i'w cynhyrchu rhwng 2017 a 2019 yn darparu sylfaen tystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a hynny ar y gyfradd weithredu briodol er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu nodi yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Caiff blaenoriaethau lleol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy eu nodi hefyd wrth ddatblygu cynlluniau ardal i seilio cynlluniau lles lleol arnynt. Bydd un neu fwy o ddatganiadau ardal yn berthnasol i Gymru gyfan

Bydd Datganiadau Ardal yn:
- Darparu tystiolaeth i gefnogi Awdurdodau Cyhoeddus i gydymffurfio â dyletswydd A6
- Darparu tystiolaeth i gefnogi gweithredu ymhob maes gwasanaeth cyhoeddus a chefnogi gweithredu ar y cyd arloesol drwy gyfrwng partneriaethau lleol.
- Cyfrannu at asesiadau lles lleol a Chynlluniau Lles Lleol a bod yn sylfaen tystiolaeth ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd Adran 6)**

Mae Adran 6, Rhan 1, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae bioamrywiaeth yn ategu cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn hyn o beth, diben dyletswydd A6 yw sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan greiddiol o benderfyniadau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â Chymru a sut  maent yn gweithredu o ran hynny.

Yn ogystal â chynnal a gwella bioamrywiaeth, diben dyletswydd bioamrywiaeth A6 yw:

- Gwella capasiti ein hadnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol, megis rheoli dŵr, rheoleiddio hinsawdd a pheillio cnydau, ynghyd â gwella ein hamgylchedd.
- Dangos swyddogaeth hanfodol bioamrywiaeth yng nghynaliadwyedd hirdymor y prosesau ecolegol a ffisegol sy'n sail i sut mae ecosystemau'n gweithio.
- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y mae'r prosesau o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn effeithio ar fioamrywiaeth.
- Sicrhau nad yw'r ddyletswydd i gynnal a chynyddu bioamrywiaeth yn faich ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus, ond ei fod yn hytrach yn gydran greiddiol o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).
- Cynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfrannu cymaint ag y gallant i gyflawni'r amcanion lles.

- **Adran 7 – Rhestrau Bioamrywiaeth**

Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Yna mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Wrth gydymffurfio â dyletswydd A6, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried rhestrau A7. Bydd hyn hefyd o gymorth i awdurdodau cyhoeddus fodloni Amcan 2 o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru**

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi sut y bydd Cymru yn darparu ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE i rwystro'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwyrdroi'r dirywiad hwnnw.

Mae'n ail-bwysleisio ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion y mae angen inni fynd i'r afael â nhw a'n hamcanion o ran gweithredu.

Mae'n nodi sut bydd y modd yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd, a sut yr ydym yn bwriadu gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gyfrwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, yn cyfrannu at wyrdroi'r crebachu mewn bioamrywiaeth yng Nghymru.

Yn ôl i'r brig

Ym**wneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru)**

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi ei ddatblygu ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae'n ategu'r ddeddf hon ac yn cysylltu â hi, gan ei bod yn rhan sylfaenol o ddatblygu cynaliadwy. Mae perthynas agos hefyd rhwng darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) â Deddf Cynllunio (Cymru) fel y dengys y diagram canlynol.

